




Ein Treftadaeth
Our Heritage

Chwareli a Mwynfeydd



Chwareli Pistyll a Nefyn

Rhwng Carreg y Llam a Nefyn bu amryw o chwareli bychain, yr amodau gwaith yr un mor galed ond deuent â chyflog i mewn ar adegau anodd.

Roedd yn Nefyn 58 o ddynion yn gweithio yn y chwareli yn 1851 ond gyda'r galw am sets yn cynyddu a chwareli'n agor symudodd mewn fudwyr yma yn arbennig i blwyf Pistyll yn ôl cyfrifiad 1881.

Agorodd **Chwarel y Gwylwyr** (SH 31904140) uwchben Nefyn yn 1830au. Rhedai inclên o'r chwarel, ar draws y ffordd at y jeti ar Draeth y Wern. (Mae ei ôl i'w weld o hyd). Câl'r sets eu llwytho i longau a'r rheiny gan amlaf ym mherchnogaeth perchnogion y chwarel.

Yn agos i bentref Pistyll roedd dwy chwarel arall – **Chwarel Tŷ Mawr a Chwarel Bodeilias** (SH 32004160). Buont hwythau yn eu tro'n gynhyrchio a'r cynnyrch hwnnw'n cael ei allforio o Ddoc Bodeilias (SH 3190422). Daeth y gwaith i ben ym mlynedd oedd cynnar yr 20fedG ond deil yr olion yno.

Cafodd **Chwarel Moel Tŷ Gwyn**, Pistyll ei hagor yn 1864 a **Chwarel Moel Dywyrch** yn uchel ar Fynydd Nefyn ger Carreg Lefain yn 1881. Yn nechrau'r 20fedG cau fu eu hanes.

Bu **Chwarel John Lloyd** ar lethrau Mynydd Nefyn yn gweithio o 1866, gyda chyfnodau ar gau nes ei chau'n derfynol yn 1937. John Lloyd Jones o Landwrog oedd un o'i pherchnogion.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Chwareli a Mwynfeydd Llŷn



Chwarel Trefor

Pan ddaeth galw mawr am sets i balmantu strydoedd dinasoedd Lloegr gwelwyd chwareli ithfaen yn agor yn Llŷn a daeth hynny â gwaith i ddynion yr ardal. Deuai'r ithfaen o greigiau ignaidd Llŷn ac yn yr Eifl a Mynydd Nefyn yr oedd y chwareli mwyaf un. Agorwyd y chwareli ar Fynydd Tir y Cwmwd, Llanbedrog a chloddwyd hefyd yng Ngwaith Trwyn Dwmi, ym Mhorth y Pistyll, Uwchmynydd. Roedd chwarel hefyd ar Garreg yr Imbyll ym Mhwllheli. Ond nid ithfaen yn unig a geir yn Llŷn.

Ond rhaid mynd yn ôl bum i chwe mil o flynyddoedd i'r cyfnod Neolithig i ganfod y gweithgaredd diwydiannol cynharaf mae gennym dystiolaeth ohono a hynny yn Ffatri Fwyell Cerrig Mynydd y Rhiw.

Dywed traddodiad y bu'r Rhufeiniaid yn cloddio am blwm ar Benrhyn Du ym mhlwyf Llanengan, ond o ganol y 17egG mae dystiolaeth bendant i hynny ddigwydd. Cafodd copr ei gloddio ym Mhant Gwyn am gyfnod byr a phlwm ar Benrhyn Du a throsodd i gyfeiriad pentref Llanengan. Câi 240 o fwynwyr yn y 19egG eu cyflogi, y mwyafrif o Gernyw.

Cafodd manganis ei ddarganfod yn gynnar yn y 19egG, a'i gloddio yn Nant y Gadwen, Y Rhiw a'i allforio o Borth Ysgo ac o Benallt, ger Clip y Gylfinir a'i gario trosodd efo rhaffordd awyr i'w allforio o Borth Neigwl. Bu galw mawr am fanganis yn ystod y ddau Ryfel Byd ond daeth y gwaith i ben yn 1945.

Iasbis gâi ei gloddio ar Fynydd Carreg, ger Porthorion ac yn Llanllawen, Uwchmynydd.

Ar draeth Aberdaron, ym Mhorth Simdde mae gweddillion glanfa. Cafodd ei chodi yn niwedd 19egG i allforio 'barytes' (grisial trwm), y mwyn o Waith Pompre yn nechrau'r 20fedG. Chafodd mo'r lanfa ei defnyddio, yn ôl y sôn.

Ond bu'r cloddio mwyaf annisgwyl yn ardal Rhoshirwaun a Llangwnnadr pan aed ati i godi glo yno ddiwedd y 19egG.

Cychwyn Cynhyrchu Sets



O chwareli ithfaen y daeth y sets i greu wyneb ar strydoedd y dinasoedd. Bu prysurdeb garw yn ardaloedd Penmaenmawr a'r Eifl a byddai'r boblogaeth yn symud rhyngddynt. Ymfudodd chwarelwyr o ardaloedd chwarelyddol eraill megis gogledd Lloegr a Chernyw.

Samuel Holland fu'n amlwg yn y diwydiant hwn – y tad yn arloesi yn Ffestiniog a'r mab yn chwareli ithfaen ardal yr Eifl. Dechreuodd y gwaith tua 1830 a phan ddaeth Trevor Jones yn oruchwyliwr y chwarel cafodd y pentref wrth droed yr Eifl ei enwi yn Trefor. Canodd Eben Fardd englynion yn ei glodfori ef a pherchnogion newydd y chwarel, Hutton a Roscoe.

Erbyn 1850 roedd chwareli ithfaen yr ardal wedi dod yn eiddo i 'The Welsh Granite Co. Ltd'. Cafodd ei brynu am £3,000 ac roedd y cyfranddaliadau yn werth £13,000. Yn 1911 cafodd chwareli Penmaenmawr a Llanfairfechan eu huno gyda chwareli'r Eifl i ffurfio 'Penmaenmawr and Welsh Granite Co. Ltd'.

Roedd Chwarel Trefor (SH36304600) wedi datblygu yn chwarel ithfaen fwya'r byd ac roedd erbyn 1931 wedi cynhyrchu 1,157,000 tonn o sets.

Yn chwarel Trefor cafodd y garreg i goffâu Llewelyn Ein Llyw Olaf sydd i'w gweld yng Nghilmeri ei chloddio. Oddi yno hefyd y daw cerrig coffa Hen Ŵr Pencader ac I D Hooson.

Yng nghanol y 19egG yng nghyffiniau Nant Gwrtheyrn cafodd tair chwarel eu hagar: Cae'r Nant, Nant a Charreg y Llam a thyfodd pentrefi Llithfaen a Phorth y Nant.



Datblygodd chwareli ardal Pistyll a Nefyn i gynhyrchu sets. Wedi i gynlluniau datblygu Porthdinllaen fel porthladd gael eu creu a rheilffordd i redeg yno o Gaernarfon neu Bwllheli roedden nhw'n teimlo y byddai galw am gerrig gwahanol. Ni ddaeth y datblygiad i fodolaeth ond dalion nhw ati i gynhyrchu cerrig ar gyfer morgloddiau a cherrig mân i wneud tarmacadam ac ati.

Tawelodd y chwareli ers talwm er bod peth gweithgarwch yn Chwarel Trefor o hyd ac mae meini cwrlo ymhlith y cynnyrch.

Chwareli'r Eifl



Yr ochr arall i'r Eifl, tua'r gorllewin, roedd dwy chwarel o bobtu Nant Gwrtheyrn – **Chwareli Cae'r Nant** (SH 35204550) a'r **Nant** (SH 34904660). Cafodd Chwarel y Nant ei hagar tua 1860 a datblygodd pentref Porth Nant yn 1878 gyda'i siop gydweithredol, ei gapel a'i ysgol. Ar gyfer y gweithwyr roedd baracs.

Roedd camffordd yn arwain i lawr o Lithfaen ond byddent yn dibynnu ar y môr i gysylltu â gweddill y byd ac i fewnforio glo a nwyddau i'r siop.

Mae sôn am dirlithriad yn 1922 pan gafodd y baracs, dau gae – Llwyn Du a Cae Bach a gefail y gof eu sgubo i'r môr.

Ar ddechrau'r 20fedG roedd poblogaeth sylweddol ym Mhorth Nant, ond yn ystod y degawdau nesaf tawelu wnaeth y chwareli, a chau yn llwyr yn 1946. Symudodd y bobl olaf o'r tai yn 1959.

Yn 1918 agorodd **Chwarel Carreg y Llam** (SH 33704380). Byddai'n allforio tua 100,000 tonnall yn flynyddol rhwng 1929 a 1939. Wedi cyfnod y sets buont yn cynhyrchu cerrig o amrywiol faint ac roedd glanfa yno i'w hallforio. Câi 50 eu cyflogi cyn yr Ail Ryfel Byd ond cau wnaeth hithau yn 1963.

Roedd bywyd y chwarelwyr yn galed - cerdded pellter nos a bore, y graig yn beryglus ac yn oer a'r ponciau yn nannedd gwynt y gogledd. Caiff gwrhydri'r chwarelwyr eu coffáu mewn cofeb ar Ben y Nant. (SH 35304408)

Ar eu pedwar, pwy ydynt
ddaw i'w gwaith drwy ddannedd gwynt?

Gwŷr caeth i fara'r graig hon
a'u gwinedd ynddi'n gynion,
haf neu aeaf, yr un iau
o gerrig ar eu gwarrau.

Ond hwy, ar lwybr yr wybren,
yn plygu, baglu i ben
y mynydd, hwy yw meini
conglau ein waliau – a ni,
mor bell o gyllell y gwynt,
yw'r naddion o'r hyn oeddynt.
Myrddin ap Dafydd

Mae cyfle yma i ddilyn Llwybrau Treftadaeth Llithfaen.

Porth y Nant a Charreg y Llam (SH 347449 a SH349455)



Cyfarwyddiadau: Dilynwch y ffordd o bentref Llithfaen (ar y B4417 Nefyn – Llanhaelhaearn) i lawr i Nant Gwrtheyrn.

Gellwch fynd i Garreg y Llam trwy fynd ar y B4417 o Lithfaen i gyfeiriad Pistyll. Ymhen 1.25km dilynwch ffordd drol tuag at ffermydd Ciliau a dilyn arwyddion llwybr cyhoeddus 'Carreg y Llam'

Caiff y bae rhwng Trwyn y Gorlech a Charreg y Llam ei gysylltu â Gwrtheyrn Gwrthenwu – cymeriad chwedlonol a drodd yn fradwr drwy roi tir i'r Saeson. Cafodd ei ymlid gan Emrys Wledig a Garmon a llwyddodd i ddianc i'r lle o'r enw Nant Gwrtheyrn heddiw. Cododd gastell o goed yno ond daeth ei erlidwyr ar ei ôl. Yn hytrach nag ildio llamodd i'w



farwolaeth o ben craig a disgyn i'r môr. Dyma Garreg y Llam.

Bu Nant Gwrtheyrn a Phorth y Nant yn hynod o brysur pan oedd chwareli'r Eifl ar agor. Byddai llongau yn cario sets o chwareli Nant Gwrtheyrn a Charreg y Llam. Yn llyfr Griffith R Williams, Atgofion Canrif mae atgofion difyr gan un a fu'n gweithio yno am flynyddoedd lawer.

Prin yw'r enwau ar rannau o'r traeth tywodlyd hwn ond mae yma Gerrig Nant a Charreg Draï ger Carreg y Llam.

Mae Gallt y Bwlch i'r de o Nant Gwrtheyrn wedi ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd bod yma goedwig arfordirol agored yn cael ei deifio gan wyntoedd o'r gorllewin. Mae'n goedwig hynafol a choed derw a bedw sydd ynddi gan fwyaf heddiw.

Ar Garreg y Llam mae Penrhyn Glas a Phorth Hywel. Yr enw am y darn o dir glas dros y dibyn yw Clwt Llwg. Hawdd iawn i ddafad gael ei denu gan y blewyn glas dyfai arno a wedyn methu mynd yn ôl i ddiogelwch. Yr unig ateb fyddai ei gadael nes y byddai'n rhy wan i symud ac wedyn ei chodi oddi yno.

Traeth Trefor (SH377473)



Cyfarwyddiadau: Dilynwch arwyddion 'Trefor' o'r A499 (Llanaelhaearn – Clynnog Fawr). Mae'r ffordd i'r traeth ym mhen gogleddol y pentref.

Daw'r arfordir o elltydd pridd, sy'n ymestyn am lawer o'r ffordd o ithfaen Penmaenmawr i ithfaen yr Eifl, i'w derfyn yn Nhrefor.

Ym mhlwyf Llanaelhaearn mae Trefor a chyn sefydlu'r pentref chwarelyddol, Hendre oedd enw'r rhan hwn o'r plwyf.

Datblygodd pentref Trefor wrth agor chwarel ithfaen a chodi'r Doc Bach, y Cei a'r Harbwr ar gyfer allforio sets. Erbyn hyn angorfa gysgodol i gychod pysgota sydd yma.

Ar yr allt i'r pentref mae hen gwt bad achub Llanaelhaearn, sydd yma ers 1883 pan gafodd ei sefydlu yma ond bu'n ddigon segur nes ei gau yn 1901.

Wrth nesu at yr Eifl mae creigiau fel, Trwyn y Tâl, Ynys Fawr ac Ynys yr Adar.

Mae traeth y West End yn dywodlyd a'r Nant Fawr sy'n rhedeg i'r traeth o Lawr Sychnant yn enghraifft o ddyffryn wedi'i ffurfio yn Oes yr Iâ.

Wrth edrych ar yr Eifl o gyfeiriad Clynnog Fawr ar y chwith gwelir Tre'r Ceiri, Yr Eifl a Mynydd Gwaith lle cafodd y chwarel ithfaen gyntaf ei hagor yn 1850. Y tri chop a hyn fu'n sail i'r Triban - bathodyn Plaid Cymru.

Trwyn y Gorlech yw'r graig serth sy'n ymestyn i'r môr o'r Eifl a thu hwnt iddo mae Nant Gwrtheyrn a gwlad Llŷn.

Dilynwch y Stori



Darganfyddwch mwy am orffennol diwydiannol yr ardal drwy ymweld â Nant Gwrtheyrn – A arferai fod yn bentref i chwarel ithfaen a sydd heddiw yn gartref i Ganolfan yr Iaith Gymraeg.